# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

## ATODLEN TALIADAU'R AELODAU

Gwneir y Cynllun hwn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gan roi sylw i Reoliadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC), sy'n berthnasol i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

**1. Cyflog Sylfaenol**

1.1 Telir Cyflog Sylfaenol i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod nad yw'n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig fel y nodir yn **Atodlen 1.**

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu'n flynyddol fel y penderfynir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

1.3 Pan fo tymor swydd Aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r Cyflog Sylfaenol yn hawl pro rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

**2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig**

2.1 Telir Uwch Gyflog i aelodau sy'n dal swyddi penodol fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y penderfynir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni ellir talu Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Telir pob Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig gan gynnwys Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni ellir talu Uwch Gyflog i fwy na hanner cant y cant o Aelodau'r Awdurdod, ac eithrio i gynnwys deilydd swydd Uwch Gyflog dros dro sy'n cyflenwi dros dro yn ystod absenoldeb teuluol y deiliad swydd penodedig.

2.7 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef/hi wedi'i enwebu ar ei gyfer.

2.8 Pan fo cyfnod Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r Cyflog yn hawl pro rata.

**3. Dewis Anwybyddu Hawl i Lwfans**

3.1 Caiff Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r Swyddog Monitro, ddewis ildio unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

**4. Atal Aelod Dros Dro**

4.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal neu ei atal yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, y rhan o'r Cyflog Sylfaenol

sy'n daladwy iddo mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw y mae wedi'i atal dros dro amdano yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155(1) o'r Mesur.

4.2 Pan fo Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal neu ei atal yn rhannol rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog yr Aelod am gyfnod yr ataliad dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur). Os yw'r ataliad rhannol yn ymwneud ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

## 5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

5.1 Lle mae unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi'i dalu i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fo'r Aelod dan sylw:

(a) yn cael ei atal neu ei atal yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod/Aelod Cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) neu nad oes ganddo hawl mewn unrhyw ffordd arall i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n berthnasol i unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu.

## 6. Taliadau

6.1 Telir yr holl lwfansau gan y Prif Swyddog Cyllid drwy gredyd banc uniongyrchol mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod ar y 18fed o bob mis.

6.2 Lle bo taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y cyfryw ran sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae pob taliad yn amodol ar y didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

## 7. Dibynyddion – Costau Gofal

7.1 Telir ad-daliad am gost Gofal i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofalu am blant neu oedolion dibynnol, ar yr amod bod yr Aelod yn mynd i gostau wrth ddarparu gofal o'r fath wrth gyflawni dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.

7.2 Mae Costau Gofal yn berthnasol i blant sy'n 15 oed neu'n iau a phersonau eraill y gall yr Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig ddangos bod angen gofal ar eu cyfer. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, caiff yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

7.3 Caiff Aelodau Cymwys hawlio costau Gofal ar gyfer costau gwirioneddol a derbynebau hyd at uchafswm nad yw'n fwy na'r hyn a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel y nodir yn **Atodlen 1.** Dylid gwneud pob cais am Gostau Gofal yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd gan nodi'r amseroedd, y dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Mae angen derbynebau ar gyfer trefniadau gofal anffurfiol a ffurfiol.

## 8. Personol - Costau Gofal

8.1 Telir ad-daliad am gost Gofal Personol i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chostau cymorth personol, ar yr amod bod yr Aelod yn mynd i gostau mewn perthynas â chymorth personol tra'n cyflawni dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.

8.2 Caiff Aelodau Cymwys hawlio costau Gofal Personol ar gyfer costau gwirioneddol a derbynebau hyd at uchafswm nad yw'n fwy na'r hyn a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, fel y nodir yn **Atodlen 1.** Dylid gwneud pob cais am gostau Gofal yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd gan nodi'r amseroedd, dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Mae angen derbynebau ar gyfer trefniadau gofal anffurfiol a ffurfiol.

## 9. Absenoldeb Teuluol

9.1 Mae gan Aelodau hawl o dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, os ydynt yn bodloni'r amodau rhagnodedig, mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr Awdurdod.

9.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag fo'u cofnod presenoldeb yn union cyn i'r absenoldeb teuluol ddechrau.

9.3 Os bydd deiliad uwch gyflog yn gymwys ar gyfer absenoldeb teuluol bydd yn gallu parhau i dderbyn ei uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb.

9.4 Os bydd yr Awdurdod yn cytuno bod angen penodi dirprwy ar gyfer absenoldeb teuluol deiliad uwch gyflog, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys os bydd yr awdurdod yn penderfynu cael uwch gyflog.

9.5 Os bydd y dirprwy cyflogedig yn golygu bod yr Awdurdod yn mynd y tu hwnt i'w uchafswm o uwch gyflogau, caniateir ychwanegiad i'r uchafswm am y cyfnod dirprwyo.

## 10. Absenoldeb Salwch

10.2 Gall deiliad uwch gyflog ar salwch tymor hir, os yw'r Awdurdod yn penderfynu, barhau i dderbyn tâl am y swydd a ddelir yn amodol ar y darpariaethau a ganlyn.

10.2 Diffinnir absenoldeb salwch hirdymor fel absenoldebau ardystiedig o fwy na 4 wythnos.

10.3 Uchafswm hyd absenoldeb salwch yw 26 wythnos neu hyd nes y daw tymor swydd yr unigolyn i ben, pa un bynnag sydd gyntaf (os caiff ei ailbenodi bydd unrhyw weddill o'r 26 wythnos yn cael ei gynnwys)

10.4 Gall yr Awdurdod, os yw'n penderfynu gwneud hynny, wneud penodiad dirprwyol ar gyfer yr absenoldeb a bydd y dirprwy yn gymwys i gael yr uwch gyflog sy'n briodol i'r swydd

10.5 Os bydd y dirprwy cyflogedig yn golygu bod yr Awdurdod yn mynd y tu hwnt i uchafswm yr uwch gyflogau taladwy, caniateir ychwanegiad am y cyfnod dirprwyo.

10.6 Os yw'r Awdurdod yn cytuno i drefnu dirprwy, rhaid rhoi gwybod i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru am y manylion o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad, gan gynnwys enw'r swydd ac amcangyfrif o hyd y cyfnod dirprwyo. Rhaid diwygio Atodlen Taliadau'r Awdurdod yn unol â hynny.

10.7 Nid yw absenoldeb salwch yn berthnasol i aelodau etholedig nad ydynt yn ddeiliaid swyddi uwch.

## 11. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

11.1 Telir ffi Aelodau Cyfetholedig gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod, diwrnod llawn neu fesul awr i Aelodau Cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol sydd â hawliau pleidleisio.

11.2 Bydd taliadau aelodau cyfetholedig yn cael eu capio ar uchafswm sy'n cyfateb i 10 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gellir cyfethol unigolyn iddo.

11.3 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

11.4 Mae'r Swyddog Monitro wedi'i ddynodi'n "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn.

11.5 Gall y Swyddog Monitro benderfynu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i raglennu ar gyfer diwrnod llawn a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os daw'r cyfarfod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio. Gall y Swyddog Monitro hefyd benderfynu bod cyfradd fesul awr yn cael ei chymhwyso lle bo'n synhwyrol cydgrynhoi nifer o gyfarfodydd byr.

11.6 Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr.

11.7 Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel dros 4 awr.

11.8 Mae'r ffioedd dyddiol, hanner diwrnod ac awr ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y'u pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wedi'u nodi yn **Atodlen 1.**

11.9 Mae'r ffioedd dyddiol, hanner diwrnod ac awr ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel y'u pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wedi'u nodi yn **Atodlen 1.**

## 12. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

12.1 **Egwyddorion Cyffredinol**

12.2 Gall Aelodau, Aelodau Cyfetholedig ac Aelodau o Baneli Apeliadau Addysgol hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2.** Lle bo Aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod disgwylir iddynt deithio yn y modd mwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu cost-effeithiolrwydd rhoddir ystyriaeth i amser teithio. Gellir cymhwyso gostyngiad priodol i hawliad Aelod nad yw'n teithio yn y modd mwyaf cost-effeithiol.

12.3 Lle bo modd, dylai Aelodau rannu trafnidiaeth.

12.4 Dylai'r pellter a hawlir ar gyfer milltiroedd fod y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael i'r pwynt lle cyflawnir y ddyletswydd, ac yn yr un modd o'r pwynt dyletswydd i'r man dychwelyd.

12.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth yr Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac yn destun adolygiad blynyddol gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

12.6 Pan fo Aelod yn cael ei atal neu ei atal yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw lle mae ef neu hi wedi'i atal neu ei atal yn rhannol gael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod.

12.7 Nid yw "dyletswyddau a gymeradwywyd" fel y'u nodir yn **Atodlen 2** yn cynnwys cyfrifoldebau etholaeth.

## 13. Teithio mewn Cerbyd Preifat

13.1 Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi penderfynu mai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy ddylai fod y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar gyfer defnyddio ceir preifat, beiciau modur a beiciau pedal ynghyd ag unrhyw dâl atodol am deithwyr.

13.2 Mae'r cyfraddau milltiroedd ar gyfer cerbydau preifat fel y'u pennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi'u nodi yn **Atodlen 3.**

13.3 Pan fo Aelod yn defnyddio ei gerbyd preifat at ddibenion dyletswydd cymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

13.4 Ni ellir ond talu lwfansau milltiroedd lle bo derbynebau tanwydd TAW yn cael eu cyflwyno gyda hawliadau. Rhaid i ddyddiad y dderbynneb fod cyn amser/dyddiad y daith y mae lwfansau'n cael eu hawlio ar ei chyfer.

## 14. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus

### 14.1 Teithio ar Drên/Bws

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn prynu'r tocynnau trên a choetsys angenrheidiol i Aelodau cyn teithiau. Oni awdurdodir fel arall bydd tocynnau trên yn rhai eilradd. Yn yr achos annhebygol y bydd angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, ad-delir y taliad ar ôl dangos y tocyn a ddefnyddiwyd ac/neu dderbynneb.

### 14.2 Prisiau Tacsi

Ni cheir ad-daliad am bris tacsi ond os cafodd y defnydd ohono ei awdurdodi mewn achos brys, neu lle nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn rhesymol. Ni thelir ad-daliad ond ar ôl cyflwyno derbynneb.

### 14.3 Tocyn Awyr

Caniateir teithio mewn awyren os mai dyma'r dull mwyaf cost-effeithiol o deithio. Mae angen caniatâd y Swyddog Monitro a bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn prynu tocynnau.

### 14.4 Teithio Dramor

Ni chaniateir teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod ond pan fydd hynny wedi'i awdurdodi gan y Swyddog Monitro. Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud trefniadau teithio a llety.

### 14.5 Costau Teithio Eraill

Bydd gan aelodau hawl i ad-daliad o ffioedd tollau, ffioedd parcio, garej dros nos a threuliau teithio angenrheidiol eraill. Ni thelir ad-daliad ond ar ôl cyflwyno derbynneb.

## 15. Llety Dros Nos

15.1 Ni chaniateir aros dros nos oni bai fod busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy, neu fod y lleoliad mor bell fel y byddai teithio yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos yn afresymol. Rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro am bob arhosiad dros nos.

15.2 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan y Gwasanaethau Democrataidd. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei dalu, neu anfoneb yn cael ei dderbyn ar ei gyfer ymlaen llaw. Lle nad yw hyn yn bosibl, rhoddir siec sy'n daladwy i'r sefydliad i'r Aelod cyn teithio.

15.3 Dim ond mewn achos brys y caniateir i Aelod archebu llety dros nos yn uniongyrchol Ni cheir ad-daliad ond ar ôl cyflwyno derbynneb, a bydd yr ad-daliad hwnnw ar lefel a dybir yn rhesymol, a heb fod yn uwch na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3.**

**16 Lwfans Cynhaliaeth**

16.1 Mae’r gyfradd cynhaliaeth dydd i dalu costau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau a gymeradwywyd (gan gynnwys brecwast pan na chaiff ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) wedi’i nodi yn **Atodlen 3.** Mae’r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd sy’n berthnasol, yn amodol ar gyflwyno derbynneb/derbynebau i gefnogi hawliad o'r fath.

16. 2 Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

**17. Hawliadau a Thaliadau**

17.1 Rhaid gwneud cais ysgrifenedig am lwfansau teithio a chynhaliaeth o fewn dau fis i ddiwedd y mis calendr y mae hawl i lwfansau'n codi ynddo, a rhaid cyflwyno'r derbynebau berthnasol i gefnogi hynny.

17.2 Telir lwfansau gan y Prif Swyddog Cyllid drwy gredyd banc uniongyrchol.

**18. Pensiynau**

18.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**19. Cydymffurfio**

19.1 Yn unol â’r Rheoliadau, rhaid i’r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Comisiwn o ran monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig, fel y nodir yn **Atodlen 4.**

**Atgoffir yr aelodau fod hawliadau treuliau yn destun archwiliadau mewnol ac allanol.**

**ATODLEN 1**

**ATODLEN TALIADAU 2026-2027**

| AELODAU Â HAWL I GYFLOG SYLFAENOL | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|
| Pob deiliad cyflog dinesig/nad yw ar gyflog uwch<br>J E Pratt<br>S J Bletsoe<br>O Clatworthy<br>T Wood<br>A R Berrow<br>I M Spiller<br>C L C Davies<br>D T Harrison<br>A Wathan<br>M J Williams<br>J H Tildesley<br>P W Jenkins<br>N Clarke<br>D M Hughes<br>I Williams<br>G Walter<br>P Ford<br>R M James<br>S Aspey<br>R J Smith<br>M R John<br>T J Thomas<br>S J Griffiths<br>J E Llewellyn-Hopkins<br>M L Hughes<br>R J Collins<br>R Williams<br>S Easterbrook<br>P Davies<br>W Kendall<br>R G Goode<br>N Farr<br>H J David | £21,044 |

**HAWLIAU CYFLOGAU UWCH**

| | RÔL | AELOD | SWM BLYNYDDOL O UWCH GYFLOG |
|---|---|---|---|
| 1. | Yr Arweinydd | J C Spanswick | £71,025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | J Gebbie | £49,717 |
| 3. | Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai | C Davies | £42,615 |
| 4. | Aelod Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (rhannu swydd ar hyn o bryd)<br><br>(rhannu swydd ar hyn o bryd) | G Haines | £31,829.50 |
| 5. | Aelod Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd<br>(rhannu swydd ar hyn o bryd) | E L P Caparros | £31,829.50 |
| 6. | Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc | M Jones | £42,615 |
| 7. | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol | M J Evans | £42,615 |
| 8. | Aelod Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid | H Williams | £42,615 |
| 9. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol | A J Ulberini-Williams | £31,567 |
| 10. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid | H Griffiths | £31,567 |
| 11. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai | J P Blundell | £31,567 |
| 12. | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles | F Bletsoe | £31,567 |
| 13. | Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu | R Granville | £31,567 |
| 14. | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | M Lewis | £31,567 |
| 15. | Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf | A Williams | £31,567 |
| 16. | Arweinydd grŵp gwrthblaid gydag o leiaf 10% o aelodaeth y Cyngor. | R Penhale-Thomas | £25,253 |
| 17. | Heb ei ddefnyddio ar hyn o bryd | | |
| 18. | Heb ei ddefnyddio ar hyn o bryd | | |

Gellir talu uchafswm o 18 uwch gyflog ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**HAWL I GYFLOGAU DINESIG**

| RÔL | AELOD | SWM BLYNYDDOL O GYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| Pennaeth Dinesig (Maer) | H Bennett | £31,567 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Faer) | E D Winstanley | £25,253 |

**HAWLIAU FEL CYFETHOLWYR STATUDOL**

| RÔL | AELOD | SWM LWFANSAU CYFETHOLWYR |
|---|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | Sue Maughan | Ffi Ddyddiol o £268<br>Ffi ½ Diwrnod o £134<br>Ffi fesul awr o £33.50 |
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | G Chapman | Ffi Ddyddiol o £268<br>Ffi ½ Diwrnod o £134<br>Ffi fesul awr o £33.50 |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol - Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Craffu – pwnc 1, Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trosedd ac Anhrefn | Safonau:<br>R Lynch<br>P Baker<br>G Thomas<br>J Evans<br>M Daley<br><br>Craffu<br>A Clarke<br>S Lambert-Worgan<br><br>Archwilio<br>B Olorunnisola<br>A Bagley<br>D Austin | Ffi Ddyddiol o £210<br>Ffi ½ Diwrnod o £105<br>Ffi fesul awr o £26.25 |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol - aelodau cyffredin o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned | Amherthnasol | Ffi Ddyddiol o £238<br>Ffi ½ Diwrnod o £119<br>Ffi fesul awr o £29.75 |
| Cadeiryddion Lleyg Cydbwyllgorau Corfforaethol | | Ffi Ddyddiol o £268 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ffi ½ Diwrnod o £134<br>Ffi fesul awr o £33.50 |
| Aelodau Lleyg Cyffredin â Hawliau Pleidleisio ar Gydbwyllgorau Corfforaethol | | Ffi Ddyddiol o £238<br>Ffi ½ Diwrnod o £119<br>Ffi fesul awr o £29.75 |

| **AELODAU SY'N GYMWYS I DDERBYN COSTAU GOFAL (Dibynyddion/Cymorth Personol)** |
|---|
| Pob Aelod<br><br>• Costau gofal ffurfiol (wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu'n unol â thystiolaeth.<br><br>• Costau gofal anffurfiol (anghofrestredig) i’w talu hyd at gyfradd uchaf sy’n cyfateb i Gyflog Byw Gwirioneddol y Deyrnas Unedig ar yr adeg yr eir i’r costau. |

## ATODLEN 2

**Dyletswyddau cymeradwy**: -

- presenoldeb mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o gorff o'r fath;

- presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;

- presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall yr awdurdodir ei gynnal gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;

- dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddiben neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Cabinet;

- dyletswydd a gyflawnir yn unol â gorchymyn sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendr;

- dyletswydd a gyflawnir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth gan yr Awdurdod sy'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo arolygu neu awdurdodi arolygu mangreoedd;

- presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;

- y dyletswyddau canlynol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor:
  - Cynadleddau cymeradwy;
  - Ymweliadau rota â sefydliadau Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - Cyfarfodydd ag Uwch Swyddogion;

- Presenoldeb yn y Swyddfeydd Dinesig i groesawu ymweliadau gan ysgolion, ar yr amod bod yr ysgol o fewn ward yr Aelod.

Lle bo gan gymdeithas awdurdod lleol neu gorff allanol arall ei gynllun ei hun ar gyfer talu lwfansau, dylai'r Aelod hawlio ei g/chostau teithio a chynhaliaeth gan y corff arall ac nid gan yr Awdurdod.

## ATODLEN 3

**Cyfraddau Milltiroedd 2025-26**

| | CYFRADDAU MILLTIROEDD |
|---|---|
| Cerbydau modur preifat o bob maint<br>Hyd at 10,000 o filltiroedd<br>Dros 10,000 o filltiroedd | 45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |
| Beiciau Modur Preifat<br>Beiciau Pedal | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Tâl atodol teithwyr | 05 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth 2026/27**

Hyd at uchafswm o £28 yw'r gyfradd cynhaliaeth ddyddiol, ac mae'n cwmpasu cyfnod o 24 awr, a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw'n berthnasol yn amodol ar gyflwyno derbynebau i gyd-fynd â'r hawliad hwnnw.

Ni chaniateir ad-daliad am ddiodydd meddwol.

**Aros Dros Nos**

Y lwfansau uchaf ar gyfer arhosiad dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael am arhosiad dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau ar ddyletswydd gymeradwy.

## ATODLEN 4

**Cydymffurfio**

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor y cyfanswm a delir ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau erbyn 30 Medi fan bellaf yn dilyn diwedd y flwyddyn berthnasol. Er mwyn sicrhau tryloywder bydd hyn yn cynnwys tâl o bob penodiad gwasanaeth cyhoeddus a ddelir gan aelodau etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiad ar wefan y cyngor o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy'n nodi'r dyletswyddau disgwyliedig yn glir.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi'r atodlen flynyddol ar gyfer Taliadau Aelodau ar wefan y cyngor erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r atodlen at y Panel Taliadau erbyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati fan bellaf.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb aelodau/aelodau cyfetholedig yng nghyfarfodydd y cyngor, y cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae aelod/aelod cyfetholedig yn hawlio ad-daliad ar eu cyfer.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol wedi'u paratoi gan aelodau ar wefan y Cyngor.

- Pan fydd yr Awdurdod yn cytuno i dalu i rywun ddirprwyo ar gyfer absenoldeb teuluol, bydd yn hysbysu'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau am y manylion, gan gynnwys y swydd neilltuol a hyd y cyfnod dirprwyo, cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad.